

Hen Gwestiynau Arholiad

Atebwch y cwestiynau canlynol yn eich llyfrau mathemateg.

1	<p>(a) Gan ddefnyddio rhifau o'r rhestr ganlynol yn unig</p> <p style="text-align: center;">33, 34, 35, 36, 37, 63, 64, 65, 66</p> <p>(i) ysgrifennwch rif cysefin,</p> <p>(ii) ysgrifennwch rif ciwb.</p>
2	<p>(b) Gan ddefnyddio'r pedwar digid 3, 8, 9, 4 ysgrifennwch</p> <p>(i) y rhif pedwar digid mwyaf posibl</p> <p>(ii) yr eilrif pedwar digid lleiaf posibl</p>
3	<p>(a) Gan ddefnyddio'r rhifau canlynol,</p> <p style="text-align: center;">25 32 49 17 21 45 14</p> <p>ysgrifennwch</p> <p>(i) gwerth 7^2,</p> <p>(ii) rhif cysefin,</p> <p>(iii) un o ffactorau 64.</p>
4	<p>(b) Ysgrifennwch drydydd isradd 125.</p>
5	<p>(a) Darganfyddwch werth $\sqrt{9} \times 2^3$.</p>
6	<p>(b) Ysgrifennwch, mewn ffigurau, y rhif saith mil pedwar cant dau ddeg pump.</p>
7	<p>(a) (i) Ysgrifennwch, mewn ffigurau, y rhif dau ddeg pedwar mil pum cant a saith.</p> <p>(ii) Ysgrifennwch, mewn geiriau, y rhif 6014.</p>
8	<p>(c) Mae tŷ yn costio un cant un deg pump o filoedd saith cant pum deg o bunnoedd. Ysgrifennwch y swm hwn mewn ffigurau.</p>
9	<p>(a) 23 45 67 38 62 59 84 72 92</p> <p>Gan ddefnyddio'r rhifau uchod yn unig, ysgrifennwch</p> <p>(i) dau rif sy'n adio i 100,</p> <p>(ii) dau rif sydd â gwahaniaeth o 12,</p> <p>(iii) yr ateb i 8×9,</p> <p>(iv) rhif sy'n lluosrif 15.</p>
10	<p>(d) Ysgrifennwch holl ffactorau 35.</p>